sgowtiaid Ceredigion scouts

be prepared...

Gwneud pob dydd yn anturiaeth yng Ngorllewin Cymru

Making everyday an adventure in West Wales

Adroddiad Blynyddol 2008

Annual Report 2008

The Scout Association

Rhif Elusen Gofrestredig 306101
Wedi'i ymgorffori gan Siartr Frenhinol
Noddwr: Ei Mawrhydi y Frenhines Elizabeth II
Sylfaenydd: Yr Arglwydd Baden-Powell o Gilwell OM GCMG GCVO KCB LLD
Llywydd: Dug Caint KG GCMG GCVO
Prif Sgowt: Peter Duncan

The Scout Association

Registered Charity Number 306101
Incorporated by Royal Charter
Patron: Her Magesty Queen Elizabeth II
Founder: The Lord Baden-Powell of Gilwell OM GCMG GCVO KCB LLD
President: The Duke of Kent KG GCMG GCVO
Chief Scout: Peter Duncan

Cyngor Sgowtiaid Ceredigion

Rhif Elusen Gofrestredig 524859
Comisiynydd Rhanbarthol: Midge McGee
Llywydd: Cyng Keith Evans

Ceredigion Scout Council

Registered Charity Number 524859
Area Commissioner: Midge McGee
President: Cllr Keith Evans

Diben y Sgowtiaid

Diben y Sgowtiaid yw hybu datblygiad pobl ifanc i gyflawni eu potensial llawn yn gorfforol, yn ddeallusol, yn gymdeithasol ac yn ysbrydol, fel unigolion, fel dinasyddion cyfrifol ac fel aelodau o'u cymunedau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

The Purpose of Scouting

The purpose of Scouting is to promote the development of young people in achieving their full physical, intellectual, social and spiritual potentials, as individuals, as responsible citizens and as members of their local, national and international communities.

Dull y Sgowtiaid

Mae Dull y Sgowtiaid yn cynnig cynllun pleserus a deniadol o hyfforddiant cynyddol yn seiliedig ar Addewid a Deddf y Sgowtiaid, dan arweiniad oedolion.

The Scout Method

The Scout Method provides an enjoyable and attractive scheme of progressive training based on the Scout Promise and Law, which is guided by adult leadership.

Cadeirydd
Chairman

Bu'r flwyddyn ddiwethaf yn flwyddyn arbennig iawn i ni i gyd fel Sgowtiaid; Jamborî'r Byd gyda 16 o'n Sgowtiaid yn cymryd rhan, cwblhau ad-drefnu gweinyddiaeth yr Ardal, ac ehangu mudiad y Sgowtiaid yng Ngheredigion. Byddai hyn yn amhosibl heb ymrwymiad ein Arweinwyr Sgowtiaid yn cael eu cefnogi gan y Grŵp a'r Pwyllgorau Ardal. Diolch i bawb.

Fel y gwyr y rhan fwyaf ohonoch mae ein Comisiynydd Rhanbarth wedi penderfynu rhoi'r gorau iddi ar ôl 7 mlynedd ac mae Pwyllgor Gweithredol y Rhanbarth yn awr yn y broses o ddewis a phenodi Comisiynydd Rhanbarth. Hoffwn i ar ran pawb sydd yn gysylltiedig â'r Sgowtiaid yng Ngheredigion, ddiolch i Midge am ei hymroddiad, amser ac ymdrech a fu'n angenrheidiol er mwyn cyflawni rôl Comisiynydd. Nid y'r cyfan ar ben, mae Midge wedi dweud ei bod yn bwriadu parhau i gymryd diddordeb yn y Sgowtiaid yn rhaglen Hyfforddiant y Rhanbarth. Mae Lez Broughton, Rheolwr Hyfforddi'r Rhanbarth hefyd wedi penderfynu rhoi'r gorau iddi a bydd colled ar ei ôl. Bu Lez yn cymryd rhan am nifer o flynyddoedd gyda'r Sgowtiaid gan gynnwys bod yn Gomisiynwyr Rhanbarthol ac Ardal yng Ngheredigion. Diolch Lez.

Yn ystod y flwyddyn cyfarfu'r Is-Bwyllgor Cyllid a Phwyllgor Gweithredol yr Ardal yn rheolaidd er mwyn cyflawni busnes y Rhanbarth. Mae ein Hysgrifennydd, Jim, yn parhau i ddiweddaru ein gwaith papur, a chadw Cofnodion sydd yn hawdd eu deall ac mae'n diweddaru ein gwefan yn rheolaidd. Diolch.

Gallwn yn awr edrych ymlaen am flwyddyn fwy sefydlog ar ôl y galwadau ar amser pobl, ac weithiau efallai eu hamynedd, drwy ein had-drefnu, Jamborî'r Byd, a nifer o weithgareddau Sgowtiaid eraill sydd yn gysylltiedig â'r dathliadau Canmlwyddiant.

NJW Hill
Cadeirydd y Rhanbarth

The last year has been a very special year for us all in Scouting; the World Jamboree, with 16 of our Scouts attending, the completion of the reorganisation of the Area administration, and the expansion of Scouting in Ceredigion. These undertakings would be impossible without the dedication of our Scout Leaders supported by the Group and Area Committees. Thank you all.

As most will now be aware our Area Commissioner, after 7 years, has decided to stand down and the Area Executive Committee are now in the process of selecting and appointing a new Area Commissioner. I, on behalf of all who are involved in Scouting in Ceredigion, would like to sincerely thank Midge for her dedication, time and effort that have been required to successfully carry out the role of a Commissioner. All is not lost, Midge has indicated that she intends to continue her Scouting interest in the Area Training programme. Lez Broughton, the Area Training Manager, has also decide to stand down and will be missed. Lez has been involved for many years in Scouting including being Area and District Commissioners in Ceredigion. Thanks Lez.

During the year the Finance Sub-committee and Area Executive Committee have met at regular intervals to carry out the business of the Area. Our Secretary, Jim, continues to keep records up to date, keep Minutes which we can understand and regularly update our website. Thank you.

We can now look forward to a more settled year after the demands made on people's time, and at times maybe patience, by our reorganisation, the World Jamboree, and the many other Scouting activities associated with the Centenary celebrations.

NJW Hill
Area Chairman

Comisiynydd Rhanbarthol
Area Commissioner

Heb amheuaeth, eleni fu'r flwyddyn brysuraf eto. Mae diffyg Comisiynydd Ardal yn Ardal Teifi wedi golygu bod yn rhaid i mi ddyblu fy nyletswyddau Rhanbarthol gyda rhai Ardal.

Mae canmlwyddiant y Sgowtiaid wedi gweld pentwr o weithgareddau ychwanegol yn ystod y flwyddyn gan gynnwys Gwersylloedd Canmlwyddiant Grŵp, Ardal a Rhanbarth. Cymerodd un ar bymtheg o Sgowtiaid Arloesi ran yn Jambori'r Byd yn Highland's Park ynghyd â 30,000 o bobl ifanc o gwmpas y Byd. Bu nifer o Sgowtiaid yng Ngwersyll PL ar Ynys Brownsea lle cynhaliwyd y Gwersyll Sgowtiaid cyntaf erioed ym 1907. Un o uchafbwyntiau'r ddau oedd Seremoni 'r Wawr ar Awst 1af a ddathlwyd yn lleol, yn genedlaethol a drwy'r Byd gan i'r Sgowtiaid i gyd o'r Befars ieuengaf i'r cyn-Sgowtiaid hynaf weld y wawr yn torri. Croesawodd Aberteifi 4ydd fintai o Sgowtiaid o'r Iseldiroedd cyn y Jambori gan ailsefydlu traddodiad hir o gyfeillgarwch gyda'n cymdogion Ewropeaidd. Bu Grŵp Sgowtiaid y Borth yn ymweld â Sweden a Llandysul gan gwblhau'r flwyddyn gydag ymweliad i Sbloets y Sgowtiaid yn Arena O2 yn Llundain gan asos yn Nhŷ BP.

Arweiniodd penodiad Chris Stewart yn Gomisiynydd Cynorthwyol Ardal ar gyfer Gweithgareddau at newidiadau a oedd eu gwir angen yn gysylltiedig ag awdurdodi gweithgareddau, gan ddiweddaru cymwysterau a chynyddu'r nifer a oedd yn ennill cymwysterau i oruchwylio gweithgareddau megis Saethyddiaeth, Canŵio a Saethu. Diolch i Alan, Gareth a Chris am hyn.

Derbyniodd Cyngor Sgowtiaid Cymru gyllid ar gyfer 3 Swyddog Datblygu Lleol er mwyn cynorthwyo i recriwtio yng Nghymru. Bu David Thomas yr Swyddog Datblygu Lleol yn weithredol yn sefydlu Grŵp newydd ym Mhencader gan ailagor Aberaeron. Mae cynlluniau ar droed ar gyfer grŵp newydd yn Nhregaron a dylai'r rhain gyda'i gilydd roi hwb mawr i'n niferoedd ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae nifer yr oedolion newydd sydd yn cynnig cynorthwyo ac ymgymryd â hyfforddiant i fod yn Arweinwyr yn galonogol iawn yn ogystal ag Arweinwyr eraill sydd wedi derbyn hyfforddiant ac yn dychwelyd.

Ar ôl llawer o ystyried penderfynais ymddiswyddo fel Comisiynydd Rhanbarth, swydd y bûm ynddi am saith mlynedd i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol eleni. Bydd bwriad Lez i ymddiswyddo fel Rheolwr Hyfforddiant Rhanbarthol yn gadael bwlch yn un o swyddi mwyaf hanfodol y Rhanbarth. Gyda 20 i 30 o Arweinwyr angen Hyfforddiant ar hyn o bryd, teimlaf fod darparu hyfforddiant yn hanfodol i dwf a llwyddiant parhaus y Sgowtiaid yn y Rhanbarth. Oni bai y bo rhywun arall yn dod ymlaen gobeithiaf ymgymryd â rôl Rheolwr Hyfforddiant Rhanbarthol.

Yn olaf, cydnabyddaf y gwaith arbennig a wneir gan Arweinwyr Gwirfoddol di-dâl sydd yn rhoi eu hamser wythnos ar ôl wythnos er mwyn rhoi cyfleoedd Sgowtio i'n haelodau ifanc. Hefyd eu rhieni gynorthwywyr ac Aelodau Gweithredol am roi eu cymorth. Yn fy achos i mae'n rhaid i mi ddiolch i'n Tîm Rhanbarthol sydd yn gwneud cymaint o oriau o waith anweladwy yn fy nghefnogi, er mwyn delio â gweinyddiaeth Rhanbarthol, rheoli cyllid a dod o hyd i Grantiau a chynnal a diweddaru gwefan y Rhanbarth.

Midge McGee

Comisiynydd Rhanbarth

Without a doubt this year has been my busiest yet. The absence of a District Commissioner in Teifi District has meant a doubling up of my own Area duties with those of the District.

One hundred years of Scouting has seen a flurry of extra activities throughout the year including Group, District and Area Centenary Camps. Sixteen Explorer Scouts took part in the World Jamboree in Highland's Park along with 30,000 youngsters from around the World. Several Scouts attended the PL's Camp on Brownsea Island where the first ever Scout Camp took place in 1907. One of the highlights of both was the Sunrise Ceremony on August 1st which was celebrated locally, nationally and throughout the World as all Scouts from the youngest Beaver to the oldest veteran Scouter saw in the Sunrise. 3rd Cardigan hosted a contingent of Dutch Scouts prior to the Jamboree re-establishing a long tradition of friendship with our European neighbours. Borth Scout Group visited Sweden and Llandysul completed their year with a visit to the Scout Spectacular at the O2 Arena in London and a stay at BP House.

The appointment of Chris Stewart to the position of AAC Activities has led to a much needed shake up of activity authorisations, the updating of qualifications and increasing the numbers qualifying to supervise activities such as Archery, Canoing and Shooting. Thanks to Alan, Gareth and Chris for this.

The Welsh Scout Council obtained funding for 3 Local Development Officers to help with recruitment throughout Wales. David Thomas the LDO has been instrumental in setting up a new Group in Pencader and re-opening Aberaeron. There are plans afoot for a new Group in Tregaron and these should collectively give a tremendous boost to our numbers for the coming year. The numbers of new adults coming forward to offer help and take on Leader Training is also very encouraging as is the return of other trained Leaders.

After much soul searching I have decided to resign my position as Area Commissioner, which I will have held for seven years come this year's AGM. Lez's stated intention to resign as the Area Training Manager will leave a vacancy in one of the most crucial positions in the Area. With 20 to 30 Leaders currently requiring Training I feel that training provision is critical to the continued growth and success of Scouting in the Area. Unless someone else comes forward I hope to take on the role of Area Training Manager.

Finally I must acknowledge the sterling work of the unpaid volunteer Leaders who give their time week after week to provide Scouting for our young members. Also their parent helpers and Executive members for giving them their support. In my own case I must thank my own Area Team who put in so many hours of unseen work to support me, to deal with Area administration, to control the finances and source Grant funding and to run and update the Area website.

Midge McGee

Area Commissioner

Dirprwy Gomisiynydd Rhanbarth (Gogledd)
Deputy Area Commissioner (North)

Yn gyffredinol mae Gogledd Ceredigion wedi tyfu ers y llynedd er bod Aberystwyth 4ydd wedi dod i ben. Mae pob Grŵp wedi cynyddu nifer y bobl ifanc ac yn ddiweddar dechreuodd Grŵp newydd yn Aberaeron.
Penparcau 2il, mae Keith Jones a John Evans wedi llwyddo i agor caban pren yn y goedwig uwch law Trawscoed. Menter ar y cyd fu hon sydd yn golygu bod adnodd i bob Grŵp yn y Rhanbarth a Keith yw'r person cyswllt ar gyfer hyn. Mae dal i fod galw am oedolion i fod yn arweinwyr Grŵp ac mae'r ymdrech i ddod o hyd iddynt yn parhau.

Mae Aberystwyth 3ydd yn parhau i wneud yn dda o dan arweinyddiaeth Gill Clissold ac mae nifer y bobl ifanc wedi tyfu. Mae ar y Grŵp hwn eto angen oedolion i arwain ac ni fyddai'n gallu bodoli heb help y myfyrwyr sydd yn arwain ac sydd yn cymryd rhan ym mhob Adran. Yr oedolion yw asgwrn cefn parhaol y Grŵp gyda'r myfyrwyr yn darparu cymorth gwerthfawr yn ystod eu hamser yn Aberystwyth. Mae'r Arweinwyr i gyd wedi gwneud yn dda yn eu hyfforddiant ac mae nifer yn awr wedi cwblhau eu Bathodyn Pren.

Mae Borth 2il yn parhau i dyfu o dan arweinyddiaeth Christine Millichamp. Maent wedi agor Nythfa o Befars sydd yn golygu bod gan Borth yn awr pob Adran yn rhedeg yn llwyddiannus. Mae'r Grŵp yn weithredol iawn yn nhref Borth ac nid oes penwythnos yn mynd heibio lle nad oes grŵp yn cymryd rhan mewn rhyw weithgaredd awyr agored. Mae Gwobrau Dug Caeredin yn llwyddiant gyda nifer o bobl ifanc ar eu ffordd i gwblhau eu Gwobr Aur, felly diolch i Christine a'r holl waith a wneir ganddi. Mae ar Borth 2il, fel y Grwpiau eraill angen oediolion i arwain ac maent yn edrych am rai yn gyson.

Dechreuodd Nythfa Befars Aberaeron gyda 20 Befar a Haid o Gybiau yn yr arfaeth. Mae Kate a Nikki yn awr wedi cwblhau eu Rhaglen Gychwynnol a dylent dderbyn eu Penodiadau Dros Dro yn fuan. Mae angen trefnu iwnifform a sgarffiau iddynt, gobeithio y bydd hyn yn digwydd cyn bo hir a hefyd bod Pwyllgor Gweithredol Grŵp yn cael ei ffurfio.

Mae'r Arloeswyr yng Ngogledd Ceredigion yn brysur iawn ac maent yn ceisio dod at ei gilydd yn rheolaidd er mwyn cynnal gweithgareddau ar y cyd. Maent dal i fod yn cael eu cysylltu â'r tri Grŵp yng Ngogledd Ceredigion ac yn gweithio yn agos gyda hwy fel hefyd y mae'r Rhaglen Arweinwyr Ifanc. Mae Arweinwyr Arloesol Dionysus erbyn hyn wedi cwblhau eu Bathodynnau Pren.
Ar y cyfan, ac eithrio recriwtio oedolion, mae Gogledd Ceredigion yn gwneud yn dda iawn gyda rhaglen awyr agored brysur iawn ar gyfer pob adran ym mhob grŵp. Gobeithio y bydd yn parhau; hoffwn ddiolch i bawb a fu o gymorth i wneud Sgowtio yn weithgaredd mor bleserus ar gyfer ein pobl ifanc i gyd, ac mae hyn yn cyfeirio at yr arweinwyr, cynorthwywyr, myfyrwyr, rhieni a'r rhai hynny sydd yn y cefndir ac sydd yn cefnogi arweinwyr yn eu rôl, a'u teuluoedd i gyd.

David Blesovsky (Bles)
Dirprwy Gomisiynydd Rhanbarthol (Gogledd)

Overall North Ceredigion has grown since last year even though 4th Aberystwyth closed. All Groups have increased the number of young people and recently a new Group in Aberaeron has opened.

2nd Penparcau, Keith Jones and John Evans have managed to open a log cabin in the woods above Trawscoed. This has been a joint venture that means that there is a resource for all Groups in the Area and Keith is the contact for this. There is still a need for adult leaders in the Group and the push to find them continues.

3rd Aberyswtyth continues to do well under the leadership of Gill Clissold and has been growing in numbers of young people. The Group again is in need of adult leaders and would not function without the help of the student leaders who are involved in all the Sections. The adult leaders become the permanent backbone to the Group with the students being a valuable help for the period of their stay in Aberystwyth. All leaders have done well with their training and a number have now completed their Wood Badge.

2nd Borth continues to grow under the leadership of Christine Millichamp. They have opened a Beaver Colony which means that Borth now has all Sections running successfully. The Group is very active in the town of Borth and not a weekend passes where the group is not involved in some outdoor activity. The Duke of Edinburgh Award is running well with a number of young people well on the way to completing their Gold Award, so thanks to Christine for all her work. 2nd Borth as with the other Groups is still in need of adult leaders and the search for them is constant.

Aberaeron Beaver Colony has started with 20 Beavers attending and a Cub Pack in the pipeline. Kate and Nikki have now completed their Getting Started Programme and should soon be awarded their Provisional Appointments. There is a need to get them uniformed and a scarf sorted out, hopefully this will happen very soon as will the formation of a Group Executive Committee.

The Explorers in North Ceredigion are very active and try to get together regularly to do joint activities. They are still linked to the three Groups in North Ceredigion and work closely with them as does the Young Leaders Programme. The Dionysus Explorer Leaders have now completed their Wood Badges.

Overall, with the exception of recruiting adults North Ceredigion is doing very well with a very active outdoor Programme for all Sections in all Groups. Long may it continue; I would like to thank all those who help to make Scouting such an enjoyable activity for all the young people, that goes out to the leaders, helpers, students, parents and those in the background who support the leaders in their roles, all their families.

David Blesovsky (Bles)
Deputy Area Commissioner (North)

Dirprwy Comisiynydd Rhanbarth (Teifi)
Deputy Area Commissioner (Teifi)

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf croesawodd Teifi 40 o Sgowtiaid o'r Iseldiroedd cyn Jambori'r Byd, y bu nifer o'n Arloeswyr yn bresennol ynddo.

Bu Arloeswyr Teifi yng Ngwersyll Awesome ym Mharc Glanwysg, lle roeddent yn gwneud popeth o flingo cwningod i Karaoke. Roedd yn werth ei weld.

Yn ystod mis Mai, cynhaliwyd ein Gwersyll Canmlwyddiant yn Llys y Fran lle dyweddïodd dau o'n Harweinwyr wrth clymhalio i lawr yr argae.

Yr ydym wedi cael blwyddyn brysur. Un o'r datblygiadau mwyaf pwysig oedd agor Grŵp Newydd ym Mhencader. Rwy'n siŵr y bydd y tîm brwdfrydig o arweinwyr yn gwneud yn dda iawn, ac yr wyf wedi bod mewn cysylltiad yn barhaus. Uchafbwynt oedd urddo 15 o Gybiau a recriwtio Pwyllgor Gweithredol a'r cyfan mewn un noson!

Cafwyd nifer o ddigwyddiadau yn Nheifi gyda Grwpiau yn bresennol, gan gynnwys: Mordaith Ganŵio Wysg, Jamboree on the Trail, Diwrnod o Hwyl i Gymru Gyfan, a Gwersyll Sgowtiaid Cymru Gyfan. Bydd Grŵp Sgowtiaid Môr Aberteifi yn dathlu eu pen-blwydd yn bedwar deg ar Orffennaf 12fed a byddant hefyd yn dathlu 100 mlynedd o Sgowtio yn y dref.

Bu'r Ardal yn bresennol yn y Gwersyll Rhanbarthol gyda phob grŵp yn bresennol ac eithrio un. Roedd yr adroddiadau yn dda iawn gyda nifer o arweinwyr newydd yr Ardal yn penderfynu eu bod eisiau cymryd rhan yn y gweithgareddau yn ogystal â'r bobl ifanc er mwyn gweld pwy fyddai'r mwyaf mwdlyd!

Mae nifer yn Nheifi yn derbyn hyfforddiant ar hyn o bryd ac maent yn awyddus iawn i gystadlu.

Yr wyf yn mynd i ganolbwyntio ar recriwtio oedolion eleni er mwyn cynyddu nifer y bobl ifanc yn y Grwpiau. Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi fy nghefnogi yn fy swydd newydd ac edrychaf ymlaen at y flwyddyn nesaf.

Yve O'Neill
Dirprwy Gomisiynydd Rhanbarth (Teifi)

In the last year Teifi have played host to 40 Dutch Scouts prior to the World Jamboree, which a number of our Explorers attended.

Teifi Explorers attended the Awesome Camp at Glanusk Park, where they did everything from skinning rabbits to karaoke. It was a sight to behold.

During May we held our Centenary Camp which was held at Llys yr Fran where two of our Leaders got engaged abseiling down the dam.

We have had a busy year. One of the most important developments was the opening of a new Group in Pencader. The enthusiastic team of leaders will, I am sure, do very well, and I have been in constant contact. A highlight was the investiture of 15 Cubs and the recruitment of an Executive Committee all in one night!

Teifi has many events that Groups will be attending, which includes; Wye Canoe Cruise, Jamboree on the Trail, All Wales Cub Fun Day, and the All Wales Scout Camp. Cardigan Sea Scout Group will be Celebrating their fortieth Birthday on 12th July and they also Celebrate 100 years of Scouting in the Town.

The District attended the Area Camp, with all groups attending bar one. The reports back have been very good, many of the District's new leaders decided that they wanted to do the activities as well as the young people in a bid to see who can get the muddiest!

Teifi has a number of Leaders undertaking training at the moment and they are all very keen to complete.

I am going to concentrate on adult recruitment this year to increase the number of young people in the Groups. I would like to thank every one who has encouraged me in my new post and I am looking forward to the coming year.

Yve O'Neill
Deputy Area Commissioner (Teifi)

Hyfforddiant i Oedolion
Adult Training

Mae 20 o Arweinwyr ar hyn o bryd yn ymgymryd â Hyfforddiant. Cynigir sesiynau ar wahân yn Ardal y Gogledd a Theifi er mwyn lleihau teithio.

Gyda'n Grant oddi wrth Gyngor Ceredigion yn cael ei glustnodi am 3 blynedd a chyllid ychwanegol ar gael ar gyfer Hyfforddiant o Gyngor Sgowtiaid Cymru yr ydym yn medru gwarantu'r costau am y tro.

Mae nifer ohonom yn y broses o gwblhau Cymhwyster Bathodyn Pren ac mae nifer o Arweinwyr eraill yn ddiweddar wedi cael cymhwyster i ddysgu Saethyddiaeth, Saethu a Chanŵio.

Mae'n galonogol bod nifer o Arweinwyr Ardal mor barod i roi amser ychwanegol i helpu gyda Hyfforddiant yr Arweinwyr newydd ac mae cymorth a mentora Lez yn amhrisiadwy wrth i mi geisio cael fy nhraed tanaf yn fy rôl newydd. Bydd yn ddrwg gennym golli ei gyfraniad a gobeithio y bydd yn chwarae rhan yn yr Hyfforddiant Ardal am flynyddoedd i ddod.

Midge McGee
Comisiynydd Rhanbarthol

There are currently more than 20 Leaders taking part in Training. Sessions are being offered separately in North District and Teifi in order to reduce travelling.

With our Grant from Ceredigion Council ring-fenced for 3 years and extra funding available for Training from the WSC we are able underwrite the costs for the time being. Many are now well on the way to completing their Wood Badge qualification and several more Leaders have recently qualified to instruct in Archery, Shooting and Canoeing.

I have been encouraged by the number of Area Leaders who are so willing to give extra time to help with the Training of the new Leaders and I am finding Lez's support and mentoring invaluable as I find my feet in my new role. We will all be sorry to lose his input and hope that he will still play a part in the Area Training for some years to come.

Midge McGee
Area Commissioner

Comisiynydd Maes
Field Commissioner

Ar ddiwedd Mawrth 2008 bu i'm cydweithiwr David Goldsmith ymddeol ar ôl nifer o flynyddoedd o wasanaeth ymroddedig i'r Sgowtiaid yng Nghymru. Yn dilyn proses drwyadl o ddethol a chyfweld, penodwyd Simon Brownsill gan Gyngor Sgowtiaid Cymru i gymryd drosodd oddi wrth David. Dechreuodd Simon gyda ni ar Fawrth 1af er mwyn sicrhau cyfnod addas ar gyfer trawsnewid pwysig. Yn dilyn nifer o flynyddoedd o wasanaeth i Sgowtio yng Nghymru bydd ein Trysorydd Tony Warrilow yn rhoi'r gorau iddi yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y WSC ym mis Hydref 2008. Cafwyd rhywun yn ei le eisoes ac ers dechrau 2008 bu'n gweithio yn agos gyda'r tîm cyllid er mwyn sicrhau trawsnewid hwylus. Mae'r Dirprwy Brif Gomisiynydd Keith Burfoot, a fu mewn nifer o swyddi gyda'r Sgowtiaid yng Nghymru, wedi rhoi'r gorau iddi a bydd yn dod yn Gadeirydd Caerdydd a Dyffryn Morgannwg yn eu Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Bu'r gwaith yn parhau drwy gydol y flwyddyn ar raglen ailstrwythuro ar gyfer rheoli a gweithredu Gyngor Sgowtiaid Cymru. Mae peth o'r gwaith hwn yn weithredol eisoes. Mae'r gwaith yn parhau ar y cyfansoddiad a bydd y strwythur diwygiedig yn cael ei gyflwyno i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cyngor Sgowtiaid Cymru ym mis Hydref 2008.

Roedd aelodau o staff Cyngor Sgowtiaid Cymru, gwirfoddolwyr hŷn a nifer o bobl ifanc unwaith eto yn bresennol mewn diwrnod llwyddiannus yng Nghynulliad Cenedlaethol ym mis Chwefror. Roedd y cyfle hwn yn rhoi platfform i ni i hysbysu aelodau'r Cynulliad ynglŷn â gwaith y Sgowtiaid. Yn 2007 blwyddyn Canmlwyddiant sgowtio, roedd Cyngor Sgowtiaid Cymru yn medru cefnogi'r criw mwyaf erioed i fynd i Jambori'r Byd gan gynnwys 5 uned o 200 o bobl ifanc ac oedolion ac Arweinwyr. Roedd hyn yn gyfle gwych i bobl ifanc o Gymru i fod yn rhan o brofiad gwirioneddol rhyngwladol.

Y llynedd, soniais am ein cais llwyddiannus am grant i Gronfa Cymunedau Actif a Bwrdd Grantiau Datblygu Cymdeithas y Sgowtiaid. Mae Ceredigion wedi elwa eisoes o'r rhaglen hon. Bu David Thomas, Swyddog Datblygu Gorllewin Cymru yn gweithio yn agos gyda'r Tîm Rhanbarthol er mwyn datblygu Sgowtio ymhellach yng Ngheredigion. Yn ystod y flwyddyn bu Cyngor Sgowtiaid Cymru yn paratoi cais i Gronfa'r Loteri Fawr i gyflogi dau Swyddog Datblygu arall i weithio gyda thri Swyddog a gyflogwyd y llynedd. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn yr ydym wedi derbyn cadarnhad fod ein cais yn llwyddiannus a bydd y swyddogion newydd yn dechrau ar eu gwaith ym mis Medi 2008. Cynlluniwyd y rhaglen ddatblygu er mwyn galluogi Cyngor 'r rhai a gyflogir gan Gyngor Sgowtiaid Cymru i gefnogi Grwpiau Sgowtiaid yn uniongyrchol er mwyn rhoi cymorth ymarferol i arweinwyr presennol i recriwtio oedolion i wirfoddoli naill ai ar gyfer adrannau newydd neu rai sydd yn bodoli eisoes.

Roedd Cyngor Sgowtiaid Cymru yn medru sicrhau grant sylweddol oddi wrth Gronfa Ymddiriedolaeth Garfield Weston a'i gwnaeth yn bosibl i roi cefnogaeth ariannol i hyfforddiant drwy Gymru. Mae hyn yn galluogi nifer o Ranbarthau i gynnig hyfforddiant am gost lai ac mae'n un o'r sawl dull arall y mae Cyngor Sgowtiaid Cymru yn medru cefnogi'r Sgowtiaid ar lawr gwlad.

Yn ystod y flwyddyn datblygodd Tîm Gweithgareddau Dŵr Cymru raglen hwylio lwyddiannus yn sgil cwch hwylio addas a brynwyd ganddynt. Ceir manylion am y rhaglen o'r swyddfa yn Llanilltud Fawr.

Bu ychydig o ostyngiad mewn niferoedd yn ystod y deuddeg mis diwethaf. Gobeithio yn 2008, gyda chymorth ymroddedig eich Tîm Rhanbarthol a'r Swyddog Datblygu, bydd Ceredigion yn medru cynyddu nifer y bobl ifanc sydd yn ymgymryd â'r cyfleoedd a gynigir gan y Sgowtiaid. Fodd bynnag y newyddion da yw bod 179 yn ychwanegol yn cymryd rhan yng ngweithgareddau Sgowtio yng Nghymru.

Clive Bracewell
Uwch Gomisiynydd Maes

At the end of March 2008 my colleague David Goldsmith retired after many years dedicated service to Scouting in Wales. Following a rigorous selection and interview process the WSC appointed Simon Brownsill to take over from David. Simon started with us on the 1st March to ensure a suitable period for the all important handover. Following many years service to Welsh Scouting our Treasurer Tony Warrilow will be standing down at the WSC AGM in October 2008. His replacement has already been identified and, since the early part of 2008, has been working closely with the finance team to ensure a seamless transition. Deputy Chief Commissioner Keith Burfoot, who has held many positions in Welsh Scouting, has stood down and will become Chairman of Cardiff and the Vale of Glamorgan at their AGM.

Work has continued throughout the year on a restructuring programme for the management and operation of the WSC. Some of this work has already been implemented. Work continues on the constitution and the revised structure will be put to the WSC AGM in October 2008.

Members of the WSC staff, senior volunteers and a number of young people were once again present at a very successful day at the Welsh Assembly in February. This opportunity gave us a platform to inform Assembly members about the work of Scouting. In 2007, the Centenary year for Scouting, the WSC was able to support its biggest ever contingent to a World Jamboree consisting of 5 units comprising 200 young people and adult Leaders. This was a tremendous opportunity for young people from Wales to participate in a truly international experience.

Last year I reported on our successful grant application to the Active Communities Fund and the Scout Association Development Grants Board. Ceredigion has already benefited from this programme. David Thomas, Development Officer for West Wales, has been working closely with the Area Team to further develop Scouting in Ceredigion. During the course of the year WSC prepared a bid to the Big Lottery Fund to employ a further two Development Officers to work alongside the three Officers employed last year. At the time of writing this report we have received confirmation that our bid was successful and the new officers will commence work in September 2008. The development programme is designed to enable WSC employees to directly support Scout Groups to provide existing leaders with practical help in the recruitment of adult volunteers either for new or existing sections.

WSC was able to secure a significant grant from the Garfield Weston Trust Fund which has made it possible to financially support training throughout Wales. This has enabled many Areas to deliver training at a subsidised cost and is another of the many ways in which WSC is able to support Scouting at grass roots level.

During the year the Wales Water Activities Team has developed a successful sailing programme following the acquisition of a suitable sailing craft. Details of the programme are available from the office in Llantwit Major.

There has been a slight fall in numbers during the course of the last twelve months. Hopefully in 2008, with the dedicated support of your Area Team and the Development Officer, Ceredigion will be able to increase the numbers of young people who are able to take up the opportunities that Scouting offers them. However the good news is that Wales has an additional 179 people participating in Scouting.

Clive Bracewell
Senior Field Commissioner

Gweithgareddau a Newyddion yn ystod y Flwyddyn

Mai 2007
Cynhaliwyd Gwersylloedd Canmlwyddiant ar draws y Rhanbarth gyda nifer o weithgareddau gan gynnwys canŵio a chlymhalio. Yn ystod Gwersyll Ardal Teifi gwnaeth Chris hyd yn oed ofyn i Claire ei briodi tra'n clymhalio i lawr yr argae, diwrnod i'w gofio.

Mehefin 2007
Roedd y tywydd yn caniatáu i nifer o weithgareddau awyr agored gael eu cynnal, coginio yn yr awyr agored, chwarae gemau eang a chael hwyl yn y goedwig yn adeiladu llochesi.

Gorffennaf 2007
Dechreuodd 16 o bobl ifanc o'r Rhanbarth fanteisio ar y ffaith iddynt godi ymron il £1000 yr un wrth iddynt ddechrau ar siwrnai i Jambori Sgowtiaid y Byd yn Essex. Roedd y bobl ifanc yn ffurfio rhan o'r Fintai Gymreig yn y Jambori.

Awst 2007
Dechreuodd y mis yn gynnar iawn i rai. Awst 1af 2007 oedd penblwydd swyddogol Mudiad y Sgowtiaid. Ar draws y Byd roedd Sgowtiaid yn dathlu dechrau Canmlwyddiant I'r Sgowtiaid. Roedd Dathliadau'r Wawr yng Ngheredigion yn cynnwys Grŵp Sgowtiaid Awyr Ceinewydd & Llanarth 2il ar y traeth ac 2il Penparcau ar ben Pendinas.

Medi 2007
Uchafbwynt mis Medi oedd Gwersyll Canmlwyddiant y Rhanbarth. Daeth dros 100 o Befars, Sgowtiaid, Arloeswyr ac oedolion i wersyll ger Llanbedr Pont Steffan. Thema'r gwersyll oedd Indiaid Cochion, ac roedd llwythau yn cystadlu yn erbyn ei gilydd am gleiniau meddygol. Roedd y penwythnos yn wlyb ac yn fwdlyd ond roedd y gwenau ar wynebau yn dweud y cyfan. Y geidiaid oedd enillwyr y cystadlaethau ar y cyfan. Da iawn pawb.

Hydref 2007
Ymunodd Arloeswyr o'r Rhanbarth gydag Arloeswyr ar draws Cymru yn Awesome 2007. Roedd Sgowtiaid Arloesol yn medru cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau gan gynnwys canŵio, dringo creigiau, saethyddiaeth a choginio. Maent yn edrych ymlaen at Awesome 2009!

Tachwedd 2007
Cymerodd nifer o Grwpiau o Sgowtiaid ran mewn arddangosfeydd Tân Gwyllt. Mwynheuwyd byrgers a selsig ger coelcerth fawr. Cefnogodd Sgowtiaid ar draws y Rhanbarth Wasanaethau a Gorymdeithiau Sul y Cofio'r Lleng Brydeinig lleol.

Rhagfyr 2007
Treuliodd Grŵp Sgowtiaid Borth nifer o oriau yn paratoi ar gyfer y Ffair Elusennau. Gwnaeth y Cybiau beli siocled a rhannwyd ffleiars drwy flychau llythyron gan Sgowtiaid ac Arloeswyr. Codwyd arian ar gyfer nifer o grwpiau a chlybiau lleol yn Borth.

Chwefror 2008
Gosodwyd y sylfaeni ar gyfer eu caban pren newydd ger Aberystwyth gan Grŵp Sgowtiaid Penparcau 2il. Cafwyd grant drwy Cydcoed a'r Comisiwn Coedwigo. Gwnaethpwyd cytundeb gyda'r Comisiwn Coedwigo i ddefnyddio'r tir am o leiaf 10 mlynedd.

Activities & News from the Year

May 2007
Centenary Camps were held across the Area with many activities including canoeing and abseiling. During Teifi District's Camp Chris even proposed to Claire while abseiling down the dam, a day to remember.

June 2007
Summer weather allowed many outdoor activities to take place, cooking outdoors, playing wide games and having fun in the woods building shelters.

July 2007
16 young people from the Area began to reap the rewards after raising nearly £1000 each they set off on the journey to the World Scout Jamboree in Essex. The young people formed part of the Welsh Contingent to the Jamboree.

August 2007
The month started very early for many. The 1st August 2007 was the official birthday of the Scout Movement. Across the World Scouts were celebrating the start of a new Centenary for Scouting. Sunrise Celebrations in Ceredigion included 2nd New Quay & Llanarth Air Scout Group on the beach and 2nd Penparcau at the top of Pendinas.

September 2007
The highlight of September was the Area Centenary Camp. Over 100 Beavers, Cubs, Scouts, Explorers, and adults set up camp near Lampeter. The camp theme was Red Indians, tribes competed against each other for medicine beads. The weekend was wet and muddy but the smiles on faces said it all. The Guides were overall winners of the competitions. Well done to all.

October 2007
Explorers from the Area joined with Explorers from across Wales at Awesome 2007. Explorer Scouts were able to take part in many activities including canoeing, rock climbing, archery and cooking. They are all looking forward to Awesome 2009!

November 2007
Many Scout Groups participated in traditional Fireworks displays. Enjoying burgers and sausages by a large bonfire. Scouts across the Area supported local British Legion Remembrance Services and Parades.

December 2007
Borth Scout Group spent many hours preparing for the Charities Fair. Cubs made chocolate truffles and Scouts and Explorers posted flyers through letterboxes. Money was raised for many locals groups and clubs in Borth.

February 2008
2nd Penparcau Scout Group lay the foundations of their new log cabin near Aberystwyth. A grant was obtained through Cydcoed and the Forestry Commission. An agreement has been made with the Forestry Commission to use the land for at least 10 years.